**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16 Medi 2013**

**YMGYNGHORIAD AR AMCANION GWELLA 2014-15**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Cyflwyno cynnwys y ddogfen ymgynghori ar yr Amcanion Gwella ar gyfer 2014-15 er mwyn cael cymeradwyaeth yr Aelodau.

## Cefndir

2 Mae'n ofynnol i awdurdodau gwella wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus a gosod Amcanion Gwella iddynt eu hunain bob blwyddyn, a hynny ar ôl ymgynghori ynghylch yr amcanion hyn gyda chynrychiolwyr partïon sydd â diddordeb. Mae hyn yn unol â Mesur Llywodraeth leol (Cymru) 2009.

3 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub lunio a chyhoeddi cynllun gwella bob blwyddyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol yn ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr yn y flwyddyn cyn y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi. Mae hyn yn unol â Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2012.

## Gwybodaeth

4 Yn ei gyfarfod ar 4 Chwefror 2013, cytunodd y Panel Gweithredol ar aelodaeth Gweithgor Cynllun Gwella o blith yr aelodau.

5 Cyfarfu'r Gweithgor yn rheolaidd i ystyried gwybodaeth ac i drafod y gwaith o ddatblygu Amcanion Gwella'r Awdurdod ar gyfer 2014-15.

6 Yn ei gyfarfod ar 15 Gorffennaf 2013, bu'r Panel Gweithredol yn ystyried argymhellion Gweithgor y Cynllun Gwella mewn perthynas â'r Amcanion Gwella ar gyfer 2014-15.

7 Erbyn hyn, rhoddwyd y rhain mewn dogfen ddrafft (Atodiad 1), ac fe'i defnyddir, rhwng nawr a dechrau Rhagfyr 2013, i gasglu barn y cyhoedd a phartïon eraill sydd â diddordeb.

8 Yna, bydd yr Awdurdod yn ystyried y sylwadau a ddaw i law yn ystod y cyfnod ymgynghori cyn mabwysiadu'r Amcanion Gwella ar gyfer 2013-15 yn derfynol cyn diwedd Mawrth 2014.

**Argymhellion**

9 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys y ddogfen 'Ein Cynlluniau ar gyfer gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru' at ddiben ymgynghoriad cyhoeddus.